# Comisiwn y Cynulliad
# Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2014 (Papur 7 Rhan 1)**
**Strategaeth Ryngwladol**

**Dyddiad:** 30 Tachwedd 2010
**Amser:** Yn dilyn y Cyfarfod Llawn
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw'r awdur a rhif cyswllt:** Natalie Drury-Styles, est 8563

## Strategaeth Ryngwladol

*Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir i gynnwys y papur hwn gael ei gyhoeddi na'i ddatgelu'n gynnar oherwydd gallai hyn ddylanwadu ar drafodaethau'r Comisiwn*

**1.0 Diben a chrynodeb o'r materion**

**1.1** Mae'r papur hwn yn ystyried gweithgarwch rhyngwladol presennol y Cynulliad, ac mae'n cynnig fframwaith ar gyfer datblygu rhaglen waith gydlynol i osod y Cynulliad yn briodol ar y llwyfan rhyngwladol.

**1.2** Drwy gytuno'r cynnig sydd wedi ei amlinellu, bydd gweithgareddau rhyngwladol y Cynulliad yn dod yn fwy o ganolbwynt. Bydd hyn yn sicrhau bod ei drafodaethau rhyngwladol, boed fel y corff sy'n croesawu ynteu fel ymwelydd, yn cyfrannu'n gadarnhaol at ei ddatblygiad fel sefydliad. Yn benodol, mae'r cynnig yn ceisio annog mwy o ymgysylltu gan Aelodau a chreu fframwaith gwerthuso mwy tryloyw ac ystyrlon.

**2.0 Argymhellion**

**2.1** Bod Comisiwn y Cynulliad yn cymeradwyo'r dull ar gyfer datblygu fframwaith ar gyfer gweithgareddau rhyngwladol y Cynulliad.

**3.0 Trafodaeth**

**3.1 Dros y degawd diwethaf cafwyd dialog aml a chynhyrchiol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a deddfwrfeydd, llywodraethau a sefydliadau rhyngwladol. Er enghraifft, ystyrir bod y Cynulliad yn arloeswr rhyngwladol yn y ffordd yr ydym yn defnyddio technoleg newydd mewn cyd-destun seneddol; yn yr un modd, caiff cymwysterau'r Senedd o ran pensaernïaeth a chynaliadwyedd eu cydnabod mewn cyd-destun rhyngwladol.**

**3.2 Fodd bynnag, nid yw ein gwaith rhyngwladol hyd yma wedi ei lywio gan fframwaith trosfwaol i lywio ein gweithgareddau a'u blaenoriaethau.**

**4.0 Materion**

**4.1 Mae nifer o faterion trawsbynciol wedi eu hystyried wrth ddatblygu'r papur hwn, gan gynnwys:**

**4.2 Yn hanesyddol mae gweithgarwch rhyngwladol y Cynulliad wedi bod yn ddarniog ac yn ymateb i geisiadau gan bobl eraill. Er bod angen cadw rhywfaint o hyblygrwydd, byddai datblygu rhaglen waith flynyddol yn galluogi cael dull rhagweithiol ac ystyrlon o fynd i'r afael ag ymgysylltu rhyngwladol. Gellir cymeradwyo'r rhaglen waith hon gan y Comisiwn i roi eglurder cyfeiriad ac i sicrhau defnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol.**

**4.2 Mae argymhellion y Panel Annibynnol ar gefnogaeth ariannol i Aelodau Cynulliad yn gyfle i gysylltu gweithgarwch rhyngwladol â hyfforddiant a datblygiad Aelodau'r Cynulliad.**

**4.3 Yr oedd adroddiad y Panel Annibynnol yn cydnabod bod angen datblygu prosesau gwerthuso cadarn ar gyfer teithio gan Aelodau. Byddai'r fframwaith a gynigir yn ymgorffori'r gofyniad hwn gan sicrhau bod yr adnoddau a neilltuir i weithgareddau rhyngwladol y Cynulliad yn dryloyw, yn effeithiol ac o fudd i'r Cynulliad.**

**4.4 Mae nifer o staff y Cynulliad yn gyfrifol am amrywiol agweddau ar weithgarwch rhyngwladol, er enghraifft, y tîm Cysylltiadau Rhyngwladol o fewn yr adran Cyfathrebu Allanol, Pennaeth swyddfa Ewrop o fewn Gwasanaeth Ymchwil yr**

**Aelodau, a Phwyllgorau'r Cynulliad sy'n chwilio am enghreifftiau o arfer da rhyngwladol. Byddai'r fframwaith newydd yn ceisio sicrhau dull mwy cydlynol o fynd i'r afael â'r holl weithgareddau rhyngwladol yn y Cynulliad.**

**4.5 Mae'r fframwaith newydd hefyd yn cynnig gwahodd sefydliadau rhyngwladol eraill yng Nghymru i ymuno mewn trafodaethau i rannu gwybodaeth. Bydd y rhain yn helpu ychwanegu at ddatblygu gweithgareddau rhyngwladol y Cynulliad, gan ddarparu cyfleoedd a buddiannau gan y naill ochr a'r llall i'r rheini sy'n gyfrifol am hyrwyddo Cymru ar y llwyfan rhyngwladol.**

5.0 Amcanion Strategol

**5.1 Er mwyn delio â'r materion hyn, caiff fframwaith ei ddatblygu i sicrhau'r amcanion dilynol ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad:**

- **hyrwyddo a chyflwyno delwedd gadarnhaol o Gymru a democratiaeth Cymru ar lwyfan rhyngwladol drwy gymryd rhan yng ngweithgareddau cyrff rhyngwladol perthnasol a sefydlu partneriaethau wedi'u ffurfioli gyda sefydliadau allweddol sy'n canolbwyntio ar faterion rhyngwladol;**
- **darparu cyfle i'r Cynulliad gael gwybodaeth a dealltwriaeth o arfer da rhyngwladol a rhannu'r wybodaeth honno, gan ddefnyddio hynny i wella arfer y Cynulliad lle bydd yn briodol; a**
- **hyrwyddo Cymru a democratiaeth Cymru drwy ganolbwyntio ar themâu penodol i gael eu hadolygu bob blwyddyn a'u cysylltu â datganiad safbwynt y Cynulliad. Ar gyfer 2011-15 cynigiwn ganolbwyntio ar y themâu dilynol:**
    - **cyfranogaeth gan ddinasyddion;**
    - **e-ddemocratiaeth;**
    - **craffu'n effeithiol ar y Llywodraeth; a**
    - **democratiaeth gynaliadwy a thryloyw.**

**6.0 Dull Darparu**

**6.1 Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, cynigiwn y canlynol:**

6.2 Gan gydnabod cyfyngiadau ar yr adnoddau sydd ar gael, byddwn yn dwyn ynghyd yr adnoddau presennol mewn Rhaglen Gweithgareddau Rhyngwladol sydd â chyllideb. O fewn hon byddwn yn blaenoriaethu gweithgarwch wedi ei gynllunio, ar ystâd y Cynulliad ac mewn gwledydd tramor, i gael ei gymeradwyo gan y Comisiwn.

6.2 Ymgymryd ag ymarfer ymgysylltu cadarnhaol gydag Aelodau Cynulliad i sefydlu cyfleoedd dewisol ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol. Bydd hyn yn ceisio annog ymgysylltu mwy ystyrlon â gweithgareddau rhyngwladol y Cynulliad.

6.3 Sicrhau dialog rhyngom â sefydliadau allanol perthnasol i rannu arfer da, ychwanegu at y rhaglen a thynnu sylw at gyfleoedd i osod y Cynulliad ar y llwyfan rhyngwladol.

6.4 Sefydlu grŵp mewnol i ddarparu'r Rhaglen Gweithgareddau Rhyngwladol. Byddai'r grŵp yn cynnwys y Tîm Cysylltiadau Ewropeaidd a Rhyngwladol, Pennaeth Swyddfa Ewrop, cynrychiolydd o Wasanaeth y Pwyllgorau a'r Tîm Allgymorth.

6.5 Adolygu ein hymgysylltu presennol â rhwydweithiau a deddfwrfeydd rhyngwladol, gan wneud y gorau o'r buddiannau y gellir eu sicrhau drwy rwydweithiau felly.

6.6 Sefydlu meini prawf cadarn i helpu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddewis gwledydd a sefydliadau y byddwn yn ymgysylltu â hwy, ac yn bod yn bartneriaid â hwy, yn y ffordd fwyaf gweithgar ac effeithiol. Diben hyn yw sicrhau y gallwn ymateb yn gadarnhaol ac yn briodol i gyfleoedd ymgysylltu gan wledydd a seneddau eraill.

6.7 Datblygu dulliau cadarn o werthuso ein hymgysylltu â'r gymuned ryngwladol.

6.8 Sicrhau bod yr holl wybodaeth a'r profiad a geir drwy gyfrwng y rhaglen yn cael eu rhannu er lles yr Aelodau, y Cynulliad a Chymru.

7.0 Adnodd

7.1 Mae'r Tîm Rhyngwladol ar hyn o bryd yn cynnwys dau aelod penodol o'r tîm a rheolwr y Tîm Allgymorth a Rhyngwladol.

Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda Phennaeth Swyddfa Undeb Ewropeaidd y Cynulliad ym Mrwsel a chyda swyddfa'r Llywydd. Yn ogystal â'r adnodd staffio, mae'r gyllideb gyfredol ar gyfer gweithgarwch rhyngwladol yn £50k. Nid yw'r papur hwn yn ceisio cael dim cynnydd yn yr adnoddau presennol, ond yn hytrach ffyrdd i wella effeithiolrwydd yr adnoddau sydd gennym.

7.2 Bydd cydlynu gweithgarwch dan ymbarél strategaeth glir gyda themâu wedi eu cytuno yn golygu cydweithio â chyrff sy'n bartneriaid i ni o ran ariannu allanol, a chysylltiadau â gweithgareddau pwyllgorau'r Cynulliad lle mae hynny'n briodol. Gallai hynny gynyddu'n sylweddol gyfanswm yr adnoddau a neilltuir ar gyfer cyfathrebu themâu strategol y Cynulliad.

8.0 Risgiau

8.1 Gallai methu â darparu strategaeth ryngwladol gydlynol, unedig gael effaith sylweddol ar enw da'r Cynulliad, ei berthynas ag etholwyr Cymru, a'i safle ar y llwyfan rhyngwladol. Gallai hefyd olygu colli cyfle sylweddol i gryfhau'r cysylltiad rhwng y Cynulliad a phartneriaid rhyngwladol. Gall defnyddio adnoddau'n wael gael ei feirniadu gan y cyhoedd.

8.2 Dyma rai pethau sy'n peryglu darparu'r strategaeth yn llwyddiannus:

- methu â chydymffurfio â'r trefniadau Llywodraethu a gynigir;
- methu â monitro gweithgareddau a'u gwerthuso;
- methu â darparu gwasanaethau wedi'u cydgysylltu a methu â dysgu o brofiadau ac arbenigedd ein gilydd; ac
- adnoddau annigonol i ddarparu rhaglen uchelgeisiol.